**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3927/20

Elin Jones MS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

03 Tachwedd 2020

Annwyl Llwywdd,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd *Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020* yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Deddf y Coronafeirws 2020 yn Senedd San Steffan ar 19 Mawrth ac roedd yn cynnwys sawl darpariaeth amrywiol ynghylch etholiadau. Gohiriodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 5 Mai 2020 unrhyw is-etholiadau a oedd bod cael eu cynnal yn y dyfodol agos, gan bennu dyddiad newydd ar gyfer cynnal yr is-etholiadau hyn erbyn 16 Ebrill 2021 ac nid cyn 1 Chwefror 2021.

Nid yw cyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer gohirio etholiadau yn y ffordd yr oeddent yn gynharach eleni ac mae angen darpariaeth ddeddfwriaethol i ddelio â materion atodol megis statws ymgeiswyr, sut i ymdrin â phleidleisiau post sydd eisoes wedi'u bwrw, sicrhau bod yr is-etholiadau gohiriedig yn cael eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadol ac arfer da, a bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i ofyn am eu barn ar y dull sy'n cael ei ddefnyddio. Ystyriwyd eu barn wrth ddrafftio'r Rheoliadau.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 4 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohiriwyd y bwriedir iddynt gael eu cynnal ddechrau mis Chwefror. Rhaid i Swyddog Canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o etholiad heb

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fod yn hwyrach na 25 o ddiwrnodau gwaith cyn dyddiad yr etholiad. Felly, pe bai is-etholiad yn cael ei gynnal ar y cyfle cyntaf posibl, ar 4 Chwefror 2021, byddai angen cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad erbyn 31 Rhagfyr 2020 fan hwyraf. Pe ufuddheir i'r rheol 21 diwrnod ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i'r Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad o etholiad er mwyn cynnal yr is-etholiad. Cyn trefnu'r is-etholiad gohiriedig, bydd y Swyddog Canlyniadau yn dymuno sicrhau yn gyntaf yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n weddill a gododd o'r gohiriad yn ogystal ag ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll eto.

Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny. Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd